



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### **PENODI 3 AELOD I FWRDD CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) / GYRFA CYMRU**

Mae Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG) yn gweithredu o dan enw Gyrfa Cymru ac mae'n is-gorff i Lywodraeth Cymru ac yn perthyn yn gyfan gwbl iddi. Mae'n darparu cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i fyfyrwyr ysgol a myfyrwyr addysg bellach, yn ogystal â phobl ifanc, fel cangen gyflenwi Llywodraeth Cymru.

**Mae'r Llywodraeth yn chwilio am 3 unigolyn ymroddedig, brwdfrydig a chryf eu cymhelliant a all gyfrannu at y gwaith parhaus o gryfhau a datblygu CCDG. Disgwylir bod gan yr ymgeiswyr llwyddiannus wir ddiddordeb mewn darparu arweiniad gyrfaoedd a byddant yn gallu dangos hyn yn ogystal â syniadau arloesol a'r gallu i feddwl yn strategol.**

Bydd angen i Aelodau'r Bwrdd gynorthwyo'r Cadeirydd i roi arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy i CCDG, gan chwarae rôl allweddol i sicrhau bod y corff yn cyflawni ei gylch gwaith. Bydd Aelodau'r Bwrdd yn atebol am berfformiad CCDG, gan ddatblygu perthynas allweddol â phartneriaid. Rhaid iddynt feddu hefyd ar ddealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a bod yn ymroddedig iddynt.

Nid yw aelodau Bwrdd CCDG yn cael eu cyflogi ac maent ar hyn o bryd yn gwasanaethu'n wirfoddol ac yn ddi-dâl. Penodir yr aelodau am gyfnod o 3 blynedd a bydd angen iddynt weithio o leiaf 8 diwrnod y flwyddyn. Bydd y 3 penodiad yn dechrau ar 28 Ebrill 2017.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodi i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp a sicrhau na chaiff unrhyw un sy'n gwneud cais am swydd gyhoeddus ei drin yn llai ffafriol ar sail oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu a chaiff y penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

I gael rhagor o fanylion ac i ymgeisio ewch i <http://llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus> neu os oes gennych gwestiynau cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk)

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Mawrth 02 Ionawr 2017. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw. Disgwylir y bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal ddydd Llun 06 Mawrth a dydd Gwener 10 Mawrth 2017 yng Nghaerdydd.

I gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch 029 2082 5454.

